# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 4 Chwefror 2016

Amser: 09.02 - 12.21

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3370

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Christine Chapman AC (Cadeirydd)<br>Peter Black AC<br>Alun Davies AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Mike Hedges AC<br>Mark Isherwood AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Gwyn R Price AC<br>John Griffiths AC (yn lle Gwenda Thomas AC)<br>Lindsay Whittle AC |
| Tystion: | Anthony Barrett, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Martin Peters, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Alan Morris, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Dominic MacAskill, Unsain |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 399KB) Gweld fel HTML (337KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Bethan Jenkins AC a Gwenda Thomas AC. Dirprwyodd John Griffiths AC ar ran Gwenda Thomas AC yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

## 2 Y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft: sesiwn dystiolaeth 1 - SOLACE

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

Alison Ward, Is-gadeirydd Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (Solace Cymru)

2.2 Datganodd yr Aelodau canlynol fuddiant perthnasol o dan Reol Sefydlog 17.24A:

- Peter Black
- Lindsay Whittle

2.3 Cytunodd Alison Ward i ddarparu manylion i'r Pwyllgor ynglŷn â sut y mae Solace yn credu y gallai cynghorau cymuned mwy o faint weithredu a pha gyfrifoldebau y gallent fod yn atebol amdanynt.

## 3 Y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft: sesiwn dystiolaeth 2 - Swyddfa Archwilio Cymru

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Anthony Barrett, Swyddfa Archwilio Cymru
- Alan Morris, Swyddfa Archwilio Cymru
- Martin Peters, Swyddfa Archwilio Cymru

3.2 Cytunodd Anthony Barrett i ddarparu manylion i'r Pwyllgor ynglŷn ag unrhyw ddadansoddiad o werth am arian a chostau/manteision a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl ad-drefnu awdurdodau lleol ym 1995/96.

## 4 Y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft: sesiwn dystiolaeth 3 - cynrychiolwyr o'r undebau llafur

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Dominic MacAskill, Rheolwr Rhanbarthol

4.2 Datganodd yr Aelodau canlynol fuddiant perthnasol o dan Reol Sefydlog 17.24A:

- Christine Chapman
- Alun Davies
- John Griffiths
- Mike Hedges

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft: trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitemau 2, 3 a 4.

## 8 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17 – Trafod yr ohebiaeth a gafwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg

8.1 Nododd y pwyllgor y llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg at y Prif Weinidog.